

MA Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru



Canolfan Wleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru
Centre for Welsh Politics and Society

WISERD@Aberystwyth

<http://www.cwps.aber.ac.uk>

@CWPSAber

MA Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru

Mae'r cynllun dyfeisgar hwn yn hyrwyddo deall Cymru gyfoes o safbwynt aml-ddisgyblaethol. Bydd y cynllun yn arfogi myfyrwyr uwchraddedig gyda sail cadarn o ddealltwriaeth am gyd-destun hanesyddol, diwylliannol, economaidd-gymdeithasol a gwleidyddol Cymru gyfoes; ymwneud beirniadol gyda dadleuon ysgolheigaidd allweddol ynghylch gwleidyddiaeth, cymdeithas a hanes Cymru; gwybodaeth o'r trefniadau cyfansoddiadol a sefydliadol sy'n llywio llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru, a dealltwriaeth o dueddiadau mewn gwleidyddiaeth diriogaethol a llywodraethiant rhanbarthol yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig ac Ewrop ehangach. Mae'n rhoi pwyslais cryf yn ogystal ar hyrwyddo cyflogadwyedd a dysgu yn seliedig ar waith.

Mae'r cynllun yn rhan ganolog o waith Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, WISERD@ Prifysgol Aberystwyth sy'n galluogi myfyrwyr uwchraddedig i astudio yng nghyd-destun canolfan ymchwil sy'n arwain yn rhyngwladol ar faterion gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd sy'n berthnasol i Gymru. Mae'n dwyn ynghyd arbenigwyr o dair adran uchel eu parch, Adran Daeyryddiaeth a Gwyddorau Daear, Adran Hanes a Hanes Cymru ac Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, gyda'r cynllun wedi ei leoli yn yr olaf o'r rhain sef adran Wleidyddiaeth Ryngwladol gyntaf y byd.

Ffeithiau Allweddol

- ♦ **Hyd:** Blwyddyn lawn amser. Mae'r flwyddyn academiaidd (mis Medi hyd fis Medi) wedi ei rhannu'n dri semester: mis Medi i fis Ionawr; mis Ionawr i fis Mehefin; mis Mehefin i fis Medi
- **Oriau Cyswllt:** Yn ystod y ddau semester cyntaf, byddwch fel arfer yn astudio un seminar dwy awr i bob modiwl bob wythnos. Byddwch hefyd yn cael cyswllt gyda staff academiaidd drwy ymwneud yng ngrwpiau thematig a gweithdai Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru a diwylliant uwchraddedigion bywiog yr adrannau sy'n cyfrannu i'r cynllun: Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Adran Daeyryddiaeth a Gwyddorau Daear ac Adran Hanes a Hanes Cymru. Mae oriau swyddfa hefyd gan staff (dwy sesiwn dwy awr yr wythnos). Bydd sesiynnau ychwanegol wrth i chi baratoi ar gyfer eich traethawd hir meistr. Yn ystod semester tri, byddwch yn gyfrifol am drefnu'r amser cyswllt gyda'r goruchwylydd fydd wedi ei benodi i chi.
- **Asesu:** mae'r cynllun dyfeisgar hwn yn defnyddio ystod o ddulliau asesu. Bydd asesiadau yn cynnwys cyfuniad o waith prosiect, adroddiadau byr, traethodau a thraethawd hir ac yn ddibynnol ar ddewisiadau modiwl, gallant hefyd gynnwys asesu ar sail cyflwyniadau seminar a thraethodau adolygiadol.
- **Gofynion Mynediad:** Gradd israddedig dda 2:2 (DU) (neu uwch) yn gyfystyr â marc cyfartalog o 56.5 neu uwch. Gall ymgeiswyr Ewropeaidd neu Ryngwladol ddod o hyd i'r radd gyfwerth ar ein tudalen gymharu <https://www.aber.ac.uk/en/postgrad/apply/comparability/>. Bydd disgwyl i'r rhai nad ydyn nhw'n raddedigion i sicrhau'r Brifysgol eu bod o safon academiaidd i ymgymryd ag astudiaethau uwchraddedig. Byddwn yn pwysu a mesur pob cais o'r fath yn unigol.
- **Ffioedd y Cwrs:** Gweler y tudalennau ffioedd dysgu am y ffioedd dysgu diweddaraf @ <https://www.aber.ac.uk/cy/postgrad/fees-finance/>. Noder bod cynydd blynyddol yn gysylltiedig â phob ffi.
- ♦ **Ariannu:** Mae'n bosib bod cyfleoedd ariannu ar gael, os gwelwch yn dda gwiriwch ein cyfrifydd ariannu am fanylion pellach <https://www.aber.ac.uk/cy/postgrad/fees-finance/calculator/>

Gorolwg

Mae'r cynllun gradd hwn yn darparu lefel uchel o ddealltwriaeth o gyd-destun a datblygiadau cyfoes yng ngwleidyddiaeth a chymdeithas Cymru i fyfyrwyr. Mae ei safbwynt aml-ddisgyblaethol yn darparu sylfaen gadarn ynghylch cyd-destun hanesyddol, seiliau Cymru gyfoes ac ymwneud beirniadol gyda dadleuon ysgolheigaidd allweddol am wleidyddiaeth, cymdeithas a hanes Cymru. Yn ychwanegol at hyn, bydd myfyrwyr yn datblygu gwybodaeth fanwl am sut mae gwleidyddiaeth ddatganoledig yn gweithredu, ymwybyddiaeth feirniadol o faterion polisi allweddol a dadleuon ynghylch natur cymdeithas gyfoes yng Nghymru wedi datganoli, a gorolwg gymharol o wleidyddiaeth a chymdeithas Cymru mewn cyd-destun Ewropeaidd ehangach.

Bydd y **llwybr arbenigol** yn darparu'r cyfle i fyfyrwyr ddilyn astudiaeth bellach bwnc-benodol mewn rhan o'r ddisgyblaeth. Bydd myfyrwyr ar y llwybr hwn yn astudio dau fodiwl craidd y cynllun (sy'n cynnwys un modiwl methodoleg craidd), pedwar modiwl o ddewis pwrpasol o fodiwlau opsiynol wedi eu gosod mewn basged sy'n cydfynd gyda'r cynllun o'r adrannau sy'n cyfrannu i'r cynllun: Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ac Adran Hanes a Hanes Cymru a dilyn hynny gyda thraethawd hir.

Mae'r **llwybr hyfforddiant ymchwil** wedi ei gynllunio i roi pwyslais ar hyfforddiant ymchwil ym maes gwyddorau cymdeithas a bydd disgwyl dilyn hyd at 60 credyd o fodiwlau o'r fath gan hefyd ddewis nifer llai o fodiwlau o ddewis pwrpasol o fodiwlau opsiynol sy'n gysylltiedig i'r cynllun gradd o 'fasged'. Penllanw'r llwybr hwn fel ag yn achos y cynllun gradd arbenigol yw traethawd hir.

Staff

Mae'r cynllun yn dwyn ynghyd staff ar draws y tair adran sy'n cydlynnu ac yn dysgu modiwlau mewn meysydd ymchwil ble maen nhw'n weithredol o ran ymchwil ac yn cael eu cydnabod fel arbenigwyr. Maen nhw'n weithgar fel rhan o Ganolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru WISERD@Aberystwyth a lansiwyd yn 2016/17.

Cynnwys y Cwrs

Noder os gwelwch yn dda: Bwriedir i'r modiwlau sydd wedi eu rhestru isod redeg y flwyddyn academiaidd nesaf (2017-18) a gallant newid. Maen nhw'n cael eu cynnwys yma er mwyn rhoi syniad o strwythur y cwrs

- ♦ Modiwl Craidd Deall Cymru yng nghyfnod Trawsnewidiad Byd-eang*
- ♦ Modiwlau Methodoleg Craidd (for Specialist Scheme): either Research Methods and Professional Skills in History or Geographical Research Methodologies
- ♦ Modiwlau Opsiynol
 - Y Wladwriaeth Drwy'r Oesau / The State through the Ages**
 - Postcolonial Politics*
 - Llunio Cymru Fodern / The Making of Modern Wales**
 - Rural Economy, Society and Policy*
 - Modiwlau Lleoliad Gwaith: Postgraduate Work Experience or Working with History**
- ♦ Traethawd Hir: Traethawd Hir Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru*

Mae * yn dynodi modiwlau lle gellir darparu yn Gymraeg yn ddibynnol ar niferoedd. Gyda'r modiwl profiad gwaith gellir gwneud pob ymdrech i sicrhau lleoliad gwaith cyfrwng Gymraeg.

Gwybodaeth Bellach ynghylch y modiwl craidd *Deall Cymru yng nghyfnod Trawsnewidiad Byd-eang*

Mae'r modiwl aml-ddisgyblaethol hwn yn cyflwyno myfyrwyr i sut mae trawsnewidiadau bydeang mawr cyfoes yn digwydd ar y lefel is-wladwriaethol, yn benodol yn y cyd-destun Cymreig.

- Rhan Un: cyflwynir myfyrwyr i'r prif drawsnewidiadau bydeang ac i aml-ddisgyblaethedd yng nghyd-destun y safbwyntiau disgyblaethol allweddol fydd yn cael eu defnyddio i ddeall effeithiau newid bydeang ar Gymru
- Rhan Dau: ystyrir y newid economaidd a chymdeithasol a thrafodir ystod o themau o'r canlynol: goblygiadau trawsnewidiadau economaidd pellgyrhaeddol ar ffurf megis diwydiannu, dad-ddiwydiannu ac economiau ôl-ddiwydiannol, trefoil a chyd-destun gwledig, y trawsnewidiad a welwyd yn natur bywyd cymunedol, ymwneud gyda chymdeithas sifil a chyfalaf cymdeithasol, a'r chwyldro mewn technoleg gwybodaeth.
- Rhan Tri: ymchwilir i oblygiadau newid gwleidyddol megis trawsnewidiad y wladwriaeth, goblygiadau llywodraethiant aml-haenog a llywodraethiant newydd sydd ar gynydd yn y cyd-destun Cymreig.
- Rhan Pedwar: Edrychir ar oblygiadau mudo a hunaniaeth ac ymateb i'r tueddiadau mewn mudo traws-genedlaethol a mudo byd eang, cynydd mewn amrywiaeth ethnig a diwylliannol a'r twf mewn gwleidyddiaeth hunaniaeth ar y lefel is-wladwriaethol mewn ymateb i'r trawsnewidiadau byd-eang.

Bydd y cynllun gradd hwn yn gweddu i chi:

- Os ydych yn dymuno astudio Gwleidyddiaeth Cymru ar lefel Uwchraddedig
- Os ydych yn dymuno datblygu gwerthfawrogiad beirniadol o Wleidyddiaeth Cymru
- Os ydych am feithrin gyrfa mewn gwleidyddiaeth a pholisi yng Nghymru neu mewn rhan arall o'r Deyrnas Gyfunol neu'r tu hwnt
- Os ydych yn dymuno cael cydnabyddiaeth ffurfiol o sgiliau mae gofyn uchel amdanynt gan gyflogwyr uwchraddedig

Cyflogadwyedd

Mae pob cwrs ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi ei gynllunio i gryfhau eich cyflogadwyedd galwedigaethol ac yn gyffredinol. Bydd eich cwrs Meistr yn eich gosod yn y farchnad waith fel arbenigwr gwleidyddol wedi ei hyfforddi i safon uchel gyda chryfderau yn cynnwys dealltwriaeth ddofn ar faterion allweddol gan gynnwys cyd-destun hanesyddol, economaidd a diwylliannol gwleidyddiaeth yng Nghymru heddiw a'r sefydliadau a'r actorion allweddol ym mywyd gwleidyddiaeth gyfoes Cymru. Byddwch yn graddio gyda sgiliau lefel uwchraddedig o ansawdd lle mae modd eu trosglwyddo i unrhyw weithle.

Mae'r rhaglen hefyd yn cynnig rhannau o fodiwlau fel darpariaeth Datblygiad Proffesiynol Parhaus 5-credyd sy'n ddelfrydol i wella cyflogadwyedd rheiny sydd eisioes mewn gwaith ond yn chwilio i ddatblygu eu harbenigedd mewn meysydd penodol.

Mae record y cynllun yn dangos ei fod yn gwneud cyfraniad cadarn i wella cyflogaeth y rheiny sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfaedd yn gysylltiedig â gwleidyddiaeth a pholisi yng Nghymru o'r gwasanaeth sifil, i newyddiadu-raeth i lobio gwleidyddol ac mae wedi profi ei hun fel paratoad gwerthfawr ar gyfer astudiaethau doethurol.